**Mark Drakeford AM/AC**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol**
**Cabinet Secretary for Finance and Local Government**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Huw Irranca-Davies AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

18 Hydref 2016

Annwyl Huw

Yn dilyn sesiwn dystiolaeth y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol ar 3 Hydref mewn perthynas â Bil Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) ("y Bil"), roeddwn yn meddwl y gallai fod o gymorth imi roi gwybodaeth bellach ichi i'ch helpu wrth ichi graffu ar y Bil.

1. *Paragraff 2(3) o Atodlen 14 – pŵer i ragnodi person fel corff cyhoeddus perthnasol ar gyfer trafodiadau'r hawl i brynu*

Mewn ymateb i gwestiwn yr Arglwydd Elis-Thomas ynghylch y weithdrefn sy'n cael ei mabwysiadu ar gyfer rheoliadau a wneir o dan baragraff 2 o Atodlen 14, esboniais fod y rhyddhad yn ymwneud â thrafodiadau lle mae'r prynwr a'r gwerthwr yn gyrff cyhoeddus.

Mae'n anochel y bydd y rhyddhad ar gyfer trafodiadau'r hawl i brynu yn golygu y bydd achosion lle mae'r gwerthwr yn gorff cyhoeddus perthnasol, a'r prynwr yn preswylio yn yr annedd honno, yn hytrach na chorff cyhoeddus. Diben y pŵer i wneud rheoliadau yw galluogi Gweinidogion Cymru i ychwanegu at y rhestr o gyrff y sector cyhoeddus sy'n gallu gwaredu annedd mewn trafodiad yr hawl i brynu.

Yn unol â'r dull cyffredinol yr wyf wedi'i ddefnyddio drwy gydol y Bil, rwyf yn dal yn fodlon bod y weithdrefn negyddol yn briodol. Y rheswm dros hyn yw mai effaith y rheoliadau – os cânt eu gwneud – fyddai ymestyn cwmpas y rhyddhad i nifer uwch o drafodiadau, gan leihau'r dreth y mae unigolyn yn gorfod ei thalu.

Er mwyn cyflawnder, mae'n werth nodi hefyd fod y rhyddhad ar gyfer yr hawl i brynu'n gweithredu mewn ffordd ychydig yn wahanol i'r mwyafrif o ryddhadau eraill yn y Bil hwn gan ei fod yn darparu rhyddhad rhannol rhag trethi, yn hytrach na'r rhyddhad llawn a gynigir yn y mwyafrif o achosion eraill. Lle mae'r rhyddhad hwn yn cael ei hawlio, mae'r ffordd y cyfrifir

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Mark.Drakeford@llyw.cymru
Correspondence.Mark.Drakeford@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

swm y dreth sy'n daladwy'n anwybyddu'r posibilrwydd y gallai'r 'disgownt' sydd ar gael i'r brynwr o ganlyniad i ymarfer ei hawl i brynu gael ei adfachu o dan ddeddfwriaeth bresennol yr hawl i brynu.

2. *Adran 34(6) – y pŵer i ddarparu na ddylid trin math penodol o gynllun fel cynllun ymddiriedolaeth unedau*

Mae Adran 34 o'r Bil yn darparu rheol gyffredinol y bydd y Bil a Deddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016 yn gymwys i gynlluniau ymddiriedolaeth uned yn yr un ffordd ag y mae'n gymwys i gwmnïau, ac eithrio mewn nifer bach o achosion penodol. Yn ymarferol mae hyn yn golygu y caiff ymddiriedolwyr cynllun ymddiriedolaeth eu trin fel pe baent yn gwmni, tra caiff hawliau deiliaid unedau yn y cynllun eu trin fel pe baent yn gyfrandaliadau yn y cwmni hwnnw.

Mae'r pŵer a gyflwynir gan is-adran (6) yn galluogi Gweinidogion Cymru i anghymhwyso'r rheol gyffredinol hon mewn perthynas â chynlluniau o fath penodol, os daw'n briodol i'r rheolau hyn fod yn gymwys. Gallai hyn gael ei ymarfer yn y dyfodol  os daw i'r amlwg bod camfanteisio ar y rheolau trwy gynlluniau osgoi, neu o ganlyniad i greu math newydd o gynllun ymddiriedolaeth uned nad yw rheolau'r ymddiriedolaeth uned yn briodol iddynt.

Yn fy nhystiolaeth i'r Pwyllgor (ym mharagraff 38-39), nodais mai unig effaith bosibl rheoliadau a wneir o dan yr adran hon fyddai lleihau'r trethi y mae rhaid eu talu. Rwyf o'r farn ei bod yn bwysig egluro y gallai'r rheoliadau a wneir o dan yr adran hon beri serch hynny fod y person sy'n gorfod talu'r dreth honno'n newid. Er na chaiff cwantwm y dreth a gymerir ei gynyddu, gallai'r atebolrwydd i unigolion a chwmnïau newid gan mai hwy, yn hytrach nag ymddiriedolwyr yr ymddiriedolaeth uned fyddai'n gorfod talu'r dreth.

3. *Paragraff 2 o Atodlen 10 - y pŵer i wneud darpariaeth bellach ynghylch y rhyddhad ar gyfer bondiau buddsoddi cyllid arall*

Fel y tanlinellodd fy swyddog yn ystod eich sesiwn graffu (ym mharagraff 75 o'r trawsgrifiad) câi'r pŵer a gyflwynir gan y paragraff hwn ei ymarfer gan Weinidogion Cymru mewn ymateb i newidiadau i gyllid Sharia. Hoffwn gadarnhau fy mod o'r farn mai newidiadau technegol neu weinyddol yw'r rhain, a'i bod yn briodol felly i'r rheoliadau hyn fod yn destun y weithdrefn negyddol.

Gobeithio y bydd yr wybodaeth hon o gymorth i'ch Pwyllgor.

Mark

**Mark Drakeford AM/AC**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol
Cabinet Secretary for Finance and Local Government